# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## 1. Amcanion polisi

Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cymru) 2026 yn galluogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i gynnal cofrestru etholiadol heb gais, a elwir hefyd yn gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig mewn perthynas â chofrestr etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar yr estyniad i'r etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac adnabod pobl sy'n cyrraedd oed (person nad yw eto'n ddigon hen i bleidleisio ond a fydd yn cyrraedd yr oedran pleidleisio gofynnol yn ystod cyfnod byw'r gofrestr etholiadol) o 14 oed.

Defnyddir data addysg a gedwir gan awdurdod lleol i adnabod pobl ifanc sy'n cyrraedd oed, o 14 oed ymlaen. Os ydynt yn gymwys, byddai'r bobl ifanc hyn wedyn yn cael eu cofrestru'n awtomatig fel person sy'n cyrraedd oed. Bydd data pobl ifanc a phobl sy'n cyrraedd oed yn cael ei ddiogelu, a byddant yn cael gwybod sut mae eu gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fel pwnc ar ei ben ei hun, yn 2022 fe ymgynghorodd ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fel rhan o Bapur Gwyn ehangach ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol.[1] Fel rhan o'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd fersiwn ar gyfer pobl ifanc.[2] Derbyniwyd 39 o ymatebion i'r fersiwn sy'n gyfeillgar i bobl ifanc, ac roedd y mwyafrif yn gefnogol yn fras i'r darpariaethau hynny sy'n effeithio fwyaf ar bobl ifanc.

Un cwestiwn penodol yn ymwneud ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn y fersiwn ar gyfer pobl ifanc oedd: "Sut fyddech chi'n dymuno cael gwybod eich bod wedi cael eich cofrestru i bleidleisio'n awtomatig a bod eich data personol yn ddiogel?". Gofynnodd rhai ymatebwyr i unrhyw un sy'n cael ei gofrestru i bleidleisio'n awtomatig gael ei hysbysu drwy lythyr yn uniongyrchol at yr etholwr, sef y dull a ddefnyddiwyd yn y peilotau ac a fydd yn cael ei weithredu wrth gyflwyno cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig ar draws Cymru.[3]

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd digwyddiad lansio Papur Gwyn i bobl ifanc. Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy rwydweithiau a digwyddiadau, ac mae wedi cefnogi nifer o sefydliadau drwy ei Grant Ymgysylltu Democrataidd sy'n

---

[1] Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol [HTML] | LLYW.CYMRU
[2] Ei gwneud yn haws pleidleisio - Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol
[3] Crynodeb o'r ymatebion

gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ar bwysigrwydd democratiaeth a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Er enghraifft, cyfarfu swyddogion ag aelodau o'r Clwb Bechgyn a Merched, a chynhwyswyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad a sut i ymateb yn y cylchlythyr Dysg, sef y cylchlythyr e-bost swyddogol ar addysg a hyfforddiant a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac a ddosberthir i addysgwyr, arweinwyr ysgolion, a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyflawnrwydd a chywirdeb cofrestrau etholiadol yn awgrymu bod pobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.[4] Felly, byddai'r gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu pobl at y gofrestr llywodraeth leol heb gais yn debygol o fod o fudd anghymesur i'r garfan hon sydd heb eu cofrestru'n llawn.

Mewn dau o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran mewn cynlluniau peillot cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, cofrestrwyd 1,500 o bobl ifanc sy'n cyrraedd oed. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod tua 2,700 i 2,800 o bobl rhwng 14 a 15 oed yng Ngwynedd, a'r un nifer ym Mhowys. Felly, mae'r nifer o bobl ifanc sy'n cyrraedd oed a ychwanegwyd at y gofrestr llywodraeth leol yn y cynlluniau peilot yn cynrychioli rhwng 16% a 37% o'r holl bobl ifanc sy'n cyrraedd oed posibl yn yr ardaloedd hynny.[5]

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, waeth beth fo'u hil, eu crefydd, eu galluoedd, beth bynnag y maent yn ei* | X | X | Bwriedir i gofrestru awtomatig nodi pob etholwr cymwys nad yw wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, waeth beth fo'u hil, crefydd, gallu ac ati, gan gynnwys pobl ifanc. |

[4] Cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol y DU yn 2023 | Electoral Commission
[5] Gwerthusiad o gynllun peilot cofrestru awtomatig | Electoral Commission

| | | | |
|---|---|---|---|
| *feddwl neu'n ei ddweud, a pha fath o deulu y maent yn dod ohono.* | | | Gan y bydd data addysg yn cael ei ddefnyddio i nodi etholwyr ifanc cymwys, efallai na fydd y rhai nad ydynt mewn addysg brif ffrwd mor hawdd eu hadnabod, a allai fod yn her i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth allu eu cofrestru'n awtomatig. |
| *Erthygl 5 - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel, wrth iddynt dyfu, eu bod yn dysgu defnyddio eu hawliau'n briodol.* | | X | Dangosodd profiad o'r cynllun peilot nad oedd rhai teuluoedd yn gyfforddus â'u pobl ifanc yn cael eu cofrestru'n awtomatig heb gydsyniad ymlaen llaw neu gyfranogiad rhieni. |
| *Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn am yr hyn y dylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.* | X | | Mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn cefnogi Erthygl 12 drwy wella cyfraddau cofrestru pobl ifanc sy'n gymwys i bleidleisio, a'u helpu i gael eu cofrestru cyn gynted ag y byddant yn gymwys. Yna gallant arfer eu hawl ddemocrataidd a phleidleisio yn unol â'u barn eu hunain pan fydd etholiad yn digwydd. |
| <u>*Erthygl 13*</u> *– Mae gan blant yr hawl i gael ac i rannu gwybodaeth cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill.* | X | X | Bydd pobl ifanc yn cael eu hysbysu drwy lythyr, wedi'i gyfeirio atynt yn uniongyrchol, o'r bwriad i'w cofrestru'n awtomatig fel rhan o'r broses hon. Bydd ganddynt y gallu i ofyn am ragor o wybodaeth gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol os nad ydynt yn glir ynghylch y broses gofrestru awtomatig neu os oes ganddynt gwestiynau.<br><br>Dangosodd profiad yn y cynlluniau peilot bod rhai rhieni nad oeddent yn cytuno y dylid cysylltu â'u plant wedi rhyng-gipio'r llythyrau hyn ac wedi cysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gwyno neu i ddewis optio allan ar ran eu plentyn. Gan fod yr oedran cyfreithiol ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru yn 16, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a bod plant a fydd yn cyrraedd yr oedran pleidleisio o fewn cylch cofrestru yn gallu cael eu cofrestru fel 'person sy'n cyrraedd oed', mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gwneud pob ymdrech i hysbysu rhieni pryderus o hawliau plant i gael eu cofrestru erbyn eu pen-blwydd yn 16 oed. |
| *Erthygl 16 - Mae gan blant hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.* | X | X | Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio data pobl ifanc i nodi pobl ifanc sy'n cyrraedd oed ar gyfer y gofrestr etholiadol. Gall hyn beri pryder i rai unigolion neu eu rhieni gan efallai na fyddant yn disgwyl i ddata addysg gael ei ddefnyddio yn y modd hwn. Mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig hefyd yn cryfhau Erthygl 16 gan ei fod yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer trin data'r rhai dan 16 oed. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Rheoliadau yn rhoi rhagor o fanylion am y mesurau diogelu a gynhwysir i warchod pobl ifanc a'u data. Wrth baratoi ar gyfer gweithredu cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, mae'r gofrestr llywodraeth leol wedi'i golygu (a oedd yn caniatáu i drydydd parti brynu'r gofrestr) wedi'i diddymu. |

Gallai cofrestru awtomatig helpu i fynd i'r afael ag un o Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig ar y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig mewn perthynas â 'Pharchu barn y plentyn'. Mae cofrestru pobl ifanc yn awtomatig cyn gynted ag y byddant yn gymwys i bleidleisio yn golygu y byddant yn gallu mynegi eu barn yn ddemocrataidd cyn gynted ag y gallant ar ôl cyrraedd 16 oed. Mae cofrestru pobl ifanc yn awtomatig yn dileu rhwystrau ac yn darparu mynediad at gyfranogiad ystyrlon yn y broses gwneud penderfyniadau yng Nghymru, ac yn cyfrannu at hawl y plentyn i gael ei glywed.

## 4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Gan fod ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn dangos bod pobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio, mae cofrestru pleidleiswyr yn

awtomatig yn ceisio mynd i’r afael â’r diffyg democrataidd hwn. Mae’r wybodaeth hon, ynghyd ag asesiad o hawliau plant, wedi llywio cyngor Gweinidogol i gynorthwyo eu proses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Yn 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig fel rhan o Bapur Gwyn ehangach ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio, a derbyniwyd 39 o ymatebion i’r fersiwn gyfeillgar i bobl ifanc, gyda’r mwyafrif yn gefnogol yn gyffredinol i’r darpariaethau hynny sy’n effeithio fwyaf ar bobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy rwydweithiau a digwyddiadau, ac wedi cefnogi nifer o sefydliadau drwy ei Grant Ymgysylltu Democrataidd sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phobl ifanc ar bwysigrwydd democratiaeth a sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed. Mae ymatebwyr blaenorol i ymgynghoriadau yn ddienw, felly nid ydym yn gallu adnabod unigolion i dderbyn adborth pellach ar y polisi a’i weithrediad. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc ar ddatblygiad polisïau etholiadol a thrwy sianeli fel y cynllun Grant Ymgysylltu Democrataidd.

Bydd pob etholwr yn cael ei hysbysu eu bod wedi’u cofrestru’n awtomatig drwy lythyr gan eu hawdurdod lleol; dyma’r un broses ag a ddefnyddir ar gyfer y canfasiad blynyddol neu os cânt wahoddiad i gofrestru. Os oes gan bobl ifanc unrhyw bryderon ynghylch y broses gofrestru awtomatig, neu os ydynt yn penderfynu yr hoffent optio allan o gofrestru awtomatig, bydd y llythyr hysbysu a gânt yn darparu manylion cyswllt eu hawdurdod lleol, a all roi rhagor o wybodaeth iddynt. Bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod y cyfathrebiadau’n hygyrch, ac mae ganddynt yr opsiwn o ddarparu gwybodaeth ychwanegol ochr yn ochr â’r hysbysiad statudol lle maent yn teimlo y gallai hynny fod o fudd i’r unigolyn, megis cynnwys codau QR sy’n cysylltu â rhagor o wybodaeth neu daflenni ychwanegol er eglurder.

## 6. Monitro ac Adolygu

Bydd effaith cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig ar y gofrestr etholiadol yn cael ei monitro drwy systemau rheoli etholiadol sy’n darparu data ar nifer y bobl a gofrestrwyd yn awtomatig. Mae’r Comisiwn Etholiadol hefyd yn adrodd yn rheolaidd ar arferion cofrestru yng Nghymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio’r ffynonellau hyn i fonitro effaith cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a, lle bo modd, i gael ystadegau ar wahanol ddemograffeg y bobl gofrestredig, gan gynnwys pobl ifanc.

Mae’r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei diweddaru gydag unrhyw newidiadau i’r rheoliadau neu effeithiau eraill ar bobl ifanc.